CAREER DEVELOPMENT INSTITUTE

CYMRU

# Maniffesto Datblygu Gyrfa yng Nghymru

## Blaenoriaethau i gyfnod nesaf y Senedd

Y Career Development Institute (CDI) yw'r prif gorff proffesiynol yn y Deyrnas Unedig i'r sector datblygu gyrfa. Dyma ein 'maniffesto' ar gyfer etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026. Edrychwch ar ein gwefan: www.thecdi.net/

Mae datblygu gyrfa yn hanfodol i wydnwch economaidd, symudedd cymdeithasol a llesiant Cymru. Wrth i gyfnod nesaf y Senedd agosau, rydym ni'n galw ar yr holl bleidiau gwleidyddol i flaenoriaeth addysg, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad o'r ansawdd uchaf ynghylch gyrfaoedd i unigolion ledled Cymru.

Mae Cymru'n meddu ar ecosystem datblygu gyrfa gref, dan arweiniad Gyrfa Cymru ac wedi'i chefnogi gan bartneriaid ym myd addysg, yn y gymuned a chyflogwyr. Yr unig ffordd y bydd yn cyflawni ei llawn botensial yw drwy gynnal y buddsoddi a phwyslais gwleidyddol clir.

### 1 Buddsoddi mewn addysg ac arweiniad ynghylch gyrfaoedd

Mae ar Gymru angen system datblygu gyrfa ag adnoddau da sy'n cefnogi pobl ar bob cam yn eu bywyd. Dylai'r pleidiau ymrwymo i:

- Nodi a chydnabod y dystiolaeth ryngwladol fod buddsoddi mewn arweiniad ynghylch gyrfaoedd yn creu gwerth economaidd a chymdeithasol. (1).
- Ymateb i'r galw clir gan y cyhoedd am gymorth hygyrch, o'r ansawdd uchaf, i ddatblygu eu gyrfa (2).
- Sicrhau bod ysgolion, colegau, prifysgolion a darparwyr cymunedol yn meddu ar y gallu i gyflwyno darpariaeth dysgu am yrfaoedd ac arweiniad cryf ynghylch gyrfaoedd.

### 2 Ail-gadarnhau'r ymrwymiad i arweiniad gydol oes

Mae newidiadau gyrfa yn digwydd drwy gydol bywyd, nid ar ddiwedd cyfnod mewn addysg yn unig. Dylai'r pleidiau ymrwymo i:

- Sicrhau y gall oedolion gael arweiniad proffesiynol, diduedd, pryd bynnag y bo'i angen.
- Gwreiddio cymorth i yrfaoedd ar draws yr holl raglenni cyflogadwyedd, sgiliau, iechyd a chymunedol.
- Cydnabod swyddogaeth Gyrfa Cymru, awdurdodau lleol, mudiadau trydydd sector a chyflogwyr yn rhoi cymorth a chefnogaeth i oedolion yn ystod cyfnodau o newid.

### 3 Diogelu a chryfhau gwasanaeth gyrfa wladol i Gymru

Mae Gyrfa Cymru'n darparu cymorth diduedd, dwyieithog, sydd ar flaen y gad yn y sector ledled y wlad. Dylai'r pleidiau ymrwymo i'r isod:

- Diogelu gwasanaeth gyrfa wladol sy'n cynnig cysondeb a graddfa yn y ddarpariaeth ddigidol ac wyneb yn wyneb integredig.
- Sicrhau bod Gyrfa Cymru yn parhau i fod yn addas ar gyfer y tirlun addysg drydyddol a hyfforddiant sy'n esblygu'n barhaus, gan gadw ei statws annibynnol a diduedd.
- Cefnogi cydweithredu ar draws yr ecosystemau datblygu gyrfa ehangach.

### 4 Sicrhau cyllido teg a chynaliadwy ar draws y system addysg a hyfforddiant

Mae system gyllido gydlynol yn hanfodol ar gyfer dilyniant a chyfleoedd i ddysgwyr. Dylai'r pleidiau ymrwymo i'r isod:

- Sicrhau nad yw dysgwyr Addysg Bellach, galwedigaethol a phrentisiaethau'n wynebu anfantais o gymharu â myfyrwyr prifysgol.
- Darparu cymorth i'r rhai nad ydynt yn barod am raglenni galwedigaethol ar hyn o bryd, yn cynnwys pobl ifanc sy'n wynebu'r risg o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant ac oedolion sy'n wynebu rhwystrau.
- Datblygu model cyllido cynaliadwy ar gyfer addysg uwch sy'n cefnogi ehangu'r cyfranogiad a dilyniant.
- Gwreiddio a chyllido darpariaeth datblygu gyrfa ar draws holl rannau'r system drydyddol.

**References**


***Investing in Career Guidance: Joint statement of the Interagency Working Group on Career Guidance*** (2025). CEDEFOP; Y Comiswin Ewropeaidd; ETF; OECD; ILO; UNESCO; World Bank Group. https://www.cedefop.europa.eu/en/publications/8900

***Valuing Careers Research Project*** (2024). Career Development Institute. https://www.thecdi.net/policy-campaigns-and-media/valuing-careers/valuing-careers-research